Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ein cyf: DPO/NC/NG

21 Ionawr 2016

Annwyl Darren

**Craffu ar Gyfrifon 2014-15: Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r adroddiad, Craffu ar Gyfrifon 2014-15, gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am eu sylwadau cadarnhaol, yn enwedig am gydnabod y modd rydym wedi gwella'n Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull o weithredu i gyflawni'n nod o sicrhau hygyrchedd cyhoeddus a thryloywder.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i sicrhau'r Pwyllgor ein bod mor ymrwymedig ag erioed i ddarparu sicrwydd drwy waith craffu ac archwilio allanol yn ogystal â drwy'n fframwaith llywodraethu mewnol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol os ydym am fod yn hyderus ein bod yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn economaidd ac yn effeithiol wrth ddarparu ein gwasanaethau i'r Cynulliad. Mae pob un o argymhellion eich Pwyllgor yn ymwneud â'r Comisiwn yn cael sylw llawn yn yr Atodiad amgaeedig.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6232
E-bost/Email: david.melding@cynulliad.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

Os hoffech ragor o wybodaeth am unrhyw fater, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir



**David Melding AC**
**Y Dirprwy Lywydd**

cc Y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd
Peter Black AC, Comisiynydd y Cynulliad
Angela Burns AC, Comisiynydd y Cynulliad
Sandy Mewies AC, Comisiynydd y Cynulliad
Rhodri Glyn Thomas AC, Comisiynydd y Cynulliad
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid

**Argymhelliad 11**

**Mae'r Pwyllgor yn falch o weld rhai o'r newidiadau a wnaeth Comisiwn y Cynulliad i ddiwyg ei ddogfennau cyfrifon er mwyn gwella hygyrchedd a thryloywder i'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu defnyddio system goleuadau traffig i ddangos perfformiad ar yr olwg gyntaf a defnyddio hysbysluniau a 'digestible pieces of information'. Serch hynny, rydym yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried cynnwys dogfen grynodeb fel rhan o gyflwyno'i gyfrifon yn y dyfodol**.

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith yn y Cynulliad, ac mae ein hadroddiad blynyddol yn amlinellu ein cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn. Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cynhwysfawr, ynghyd â dogfen gyllideb flynyddol ac adroddiadau ar fesurau perfformiad corfforaethol, yn dangos yr hyn rydym yn ei gyflawni. Rydym yn gwneud pob ymdrech i fod mor dryloyw ac mor glir â phosibl.

Mae manteision sylweddol ynghlwm wrth gynhyrchu dogfen gryno ar wahân, a hynny er mwyn i ddefnyddwyr fedru deall gwaith y Comisiwn, ei gynlluniau at y dyfodol a'i gyllid, heb iddynt orfod mynd drwy'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon cyfan. Byddai gwneud hynny'n cyd-fynd â'r dogfennau ychwanegol y byddwn yn eu cynhyrchu ar wahân, er enghraifft, ym maes cynaliadwyedd, cydraddoldeb, ieithoedd swyddogol, a'r gyllideb flynyddol.

Yn unol â chanllawiau diweddaraf Trysorlys ei Mawrhydi ar symleiddio adroddiadau a chyfrifon (mae rhagor o wybodaeth yn Argymhelliad 12) bydd tair rhan i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16, sef:

- Adroddiad perfformiad;
- Adroddiad atebolrwydd; a
- Datganiad Ariannol.

Yn benodol, bydd yr adroddiad perfformiad yn crynhoi'r hyn rydym wedi'i gyflawni a'n gweithgareddau, y risgiau a'r problemau rydym wedi'u hwynebu, crynodeb o'n perfformiad ynghyd â dadansoddiad manylach, gan gynnwys ein dangosyddion perfformiad corfforaethol. Byddwn yn cynnwys hysbysluniau gwell a negeseuon allweddol yn y rhan gyntaf o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a byddwn yn ei chyhoeddi fel dogfen gryno, i roi crynodeb o'n gwaith yn ystod y flwyddyn.

**Argymhelliad 12**

**Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gomisiwn y Cynulliad i ateb gofynion y Trysorlys o ran sicrhau bod adroddiadau'n symlach ac yn fwy tryloyw. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r gwaith hwn gael ei adolygu a'i fonitro'n agos i sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu bodloni**

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn yn rhan bwysig o'r broses lywodraethu ac o'n hatebolrwydd, ac mae hefyd yn ffordd allweddol o roi gwybodaeth am waith y Comisiwn a'r Cynulliad. Bob blwyddyn, byddwn yn ceisio cynhyrchu adroddiad mwy clir a thryloyw.

Yn ystod 2015-16, byddwn yn ystyried canllawiau newydd Trysorlys ei Mawrhydi (gweler ein hymateb i Argymhelliad 11). Byddwn yn monitro ac yn adolygu'n ofalus y gwaith o newid fformat yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Bydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn (ACARAC) yn rhan o'r broses hon, ynghyd â Swyddfa Archwilio Cymru sy'n adolygu'r drafft fel rhan o'r gwaith archwilio dros dro a gynhelir ym mis Ionawr 2016. Bydd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwaith dros dro hwn yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon terfynol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2016.

**Argymhelliad 13**

**Ystyriodd y Pwyllgor bryderon a godwyd ynghylch hygyrchedd gwefan y Cynulliad, yn arbennig o gofio pwysigrwydd gwybodaeth ar-lein o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad i fynd i'r afael â'r mater hwn ac mae'n argymell y dylai'r gwaith hwn gael ei wneud ar fyrder i sicrhau bod gwefan y Cynulliad mor hwylus a hygyrch â phosibl i'r defnyddiwr.**

Rydym am gael ein cydnabod fel senedd sy'n agored a hygyrch, a senedd y mae'n hawdd ymgysylltu â hi. Mae'r wefan yn rhan bwysig o hynny, ac mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau bod y wefan yn darparu'r hyn sydd ei angen ar yr Aelodau a'r cyhoedd.

Mae'r Comisiwn yn cynnal adolygiad eang o'r wefan ac mae wedi cwblhau'r cam cyntaf gan ddarparu system rheoli cynnwys newydd i roi gwybodaeth ac i'w gwneud yn haws chwilio am wybodaeth.

Yn ystod y cyfnod presennol o newidiadau, a ddaw i ben fis Mai 2016, byddwn yn gwella'r wefan ymhellach drwy ddatblygu:

- hafan newydd, mwy deinamig, lle y bydd yn haws gweld y newyddion diweddaraf, busnes y Cynulliad a gwybodaeth amserol;
- y gallu i lywio'n haws o'r hafan at wybodaeth sy'n cael ei darllen yn rheolaidd am waith y Cynulliad a'i Aelodau;
- fideos a delweddau gwell, sy'n haws eu gweld;
- newidiadau eraill i'w gwneud yn haws chwilio am wybodaeth yn gyffredinol;
- data a gwybodaeth ar-lein sy'n haws eu defnyddio; a
- gwybodaeth fwy penodol am waith yr Aelodau.

Rydym hefyd yn bwriadu gwneud newidiadau sefydliadol i'r modd rydym yn cyhoeddi ein gwybodaeth ar-lein, yn ogystal â newid sut y mae'r data'n cael ei gadw. Mae hyn yn ymrwymiad sylweddol i'r Comisiwn, ond mae'r gwaith cynllunio'n mynd rhagddo. Ein nod yw trawsnewid y modd rydym yn cynhyrchu, yn defnyddio ac yn cyflwyno'r holl wybodaeth am y Cynulliad a'r gwasanaethau sydd ynghlwm wrtho, gan ganolbwyntio'n bendant ar yr hyn sydd ei angen ar ein cwsmeriaid – a sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu gweld ac ymgysylltu â gwybodaeth seneddol ddibynadwy pryd bynnag, sut bynnag a lle bynnag y mynnant.

Penderfynwyd datblygu rhaglen trawsnewid digidol ar gyfer gwasanaethau busnes y Cynulliad er mwyn ymateb i ddisgwyliadau ein cwsmeriaid ac addasu i heriau byd sy'n newid yn gyflym:

- Disgwylir y bydd y pwysau ar Aelodau ac ar ein gwasanaethau'n parhau i gynyddu yn ystod y Cynulliad nesaf;
- Mae disgwyliadau pobl o ran eu profiadau digidol yn eu bywydau bob dydd yn cynyddu'n gyflym;
- Mae'r modd y mae pobl yn ymgysylltu â'r amgylchedd gwleidyddol yn newid, ac maent yn disgwyl i wybodaeth fod yn dryloyw ac yn hygyrch;
- Er bod enghreifftiau o arfer da, mae gwybodaeth ddigidol y Cynulliad yn anghyson ac yn annigonol.

Rydym o'r farn:

- Bod posibilrwydd y gallai'r rhaglen trawsnewid digidol fod yn allweddol i'r broses o gyflawni nodau strategol y Cynulliad: er mwyn darparu gwasanaethau rhagorol ac ymgysylltiad democrataidd, bydd angen cynyddol i sicrhau rhagoriaeth ym maes rheoli gwybodaeth a systemau digidol;
- Bod posibilrwydd y gallai gwybodaeth ddigidol arwain at Wasanaethau Busnes mwy effeithlon sy'n cynnig mwy o werth am arian;

- Bod gennym farn uchelgeisiol, glir a chyffredin am yr hyn y byddwn yn ei ystyried yn llwyddiant.

Gall rhaglen trawsnewid digidol arwain at nifer o fuddion pwysig i Aelodau'r Cynulliad, pobl Cymru a staff y Cynulliad, a'n galluogi i ymateb yn effeithiol i'r heriau a wynebwn.  Dylai'n sicr drawsnewid y modd rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar-lein.

**Argymhelliad 14**

**Hoeliodd y Pwyllgor sylw ar ei bryderon blaenorol ynghylch uchelgais parhaus Comisiwn y Cynulliad i wario bob amser hyd at o fewn un y cant o'r gyllideb.  Aeth y Pwyllgor ar drywydd y mater hwn eto a chlywodd yr esboniad ar gyfer yr ymagwedd hon gan Brif Weithredwr Comisiwn y Cynulliad.  Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr ymagwedd hon yn parhau ond nid yw wedi'i argyhoeddi bod yr ymagwedd yn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl o ran defnyddio adnoddau.  Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad fonitro'r ymagwedd hon yn ofalus, a lle gwelir diffyg effeithlonrwydd arwyddocaol y dylai'r adnoddau hyn gael eu dychwelyd i'r pwrs cyhoeddus.**

Mae gennym ninnau'r un nod â'r PAC, sef sicrhau bod y Comisiwn yn cyflawni gwasanaeth o safon sy'n rhoi'r gwerth gorau bosibl i'r pwrs cyhoeddus. Rydym yn sicrhau bod hyn yn digwydd drwy baratoi cyllideb arbenigol, drylwyr a thryloyw, fframwaith llywodraethu cynhwysfawr ac adroddiadau ariannol rheolaidd.  Mae'r rhain i gyd yn mynd drwy'r broses craffu.  Rydym yn credu bod ein dulliau o weithredu'n sicrhau gwerth i'r trethdalwr mewn ffordd agored ac effeithiol.

Dim ond un ffordd o fesur a ydym yn rheoli ein busnes yn effeithiol ac yn cyflawni'r hyn y dywedwn y byddwn yn ei wneud yw'r targed o 1%.  Gellir ein barnu'n ôl y wybodaeth gynhwysfawr a ddarparwn ar gyfer cyfres lawn o fesurau.  Byddwn yn monitro cynnydd yn ôl y mesurau perfformiad hyn ac yn cyflwyno adroddiadau cynnydd arnynt yn rheolaidd.

Gallwn ddangos bod pob agwedd ar berfformiad ariannol yn destun gwaith craffu sylweddol.  Er enghraifft, yn ogystal â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, bydd y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Cyhoeddus y Comisiwn, cynghorwyr annibynnol y Comisiwn a Swyddfa Archwilio Cymru yn craffu ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.  Mae'r holl elfennau hyn yn rhoi sicrwydd ein bod yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol, gan gydymffurfio'n llawn â'r arfer gorau a nodir yng nghanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi.

Yn ystod y flwyddyn, bydd penderfyniadau gwariant yn cael eu gwneud gan Fwrdd Buddsoddi ac Adnoddau'r Comisiwn (IBR), sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyllidebau'r Comisiwn yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl i roi blaenoriaethau'r Comisiwn ar waith a sicrhau gwerth am arian.  Os bydd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau'n penderfynu bod gan y Comisiwn arian dros ben, caiff ei ddychwelyd i floc Cymru drwy gyfrwng cyllideb atodol.

**Argymhelliad 15**

**Bu'r Pwyllgor yn trafod ymagwedd Comisiwn y Cynulliad at staffio ac er bod absenoldeb salwch y staff yn is na chyfartaledd y sector cyhoeddus yr ydym yn pryderu bod y lefelau yn uwch na tharged Comisiwn y Cynulliad.  Rydym yn nodi siom Comisiwn y Cynulliad ynglŷn â'r ffigurau hyn ond yn croesawu'r ffaith bod partneriaid busnes adnoddau dynol wedi'u cyflwyno i weithio gyda rheolwyr llinell i wella'r rheolaeth ar absenoldeb.  Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai lefelau absenoldeb oherwydd salwch barhau i gael eu monitro'n ofalus i sicrhau bod y camau sy'n cael eu cymryd yn cael effaith gadarnhaol ac i nodi ble y gall fod angen rhagor o waith**.

Mae'r camau a gymerwyd i wella prosesau, yn enwedig y penderfyniad i gyflwyno partneriaid busnes Adnoddau Dynol strategol, yn golygu ein bod yn awr mewn sefyllfa well i ddeall y rhesymau dros absenoldeb tymhorol. Rydym hefyd wedi cyflwyno proses i ailedrych ar ffigurau'r chwarter blaenorol er mwyn sicrhau bod hysbysiadau ôl-weithredol o absenoldeb newydd neu absenoldeb a ddaeth i ben yn cael eu hadlewyrchu.

Ar ôl adolygu a gwella prosesau, cawsom wybod y rhesymau amrywiol dros absenoldebau oherwydd salwch ers mis Ionawr 2015.  Un o'r pryderon a nodwyd oedd cynnydd yn y nifer sy'n ymwneud â straen a phryder.  Gallwn briodoli cyfran o'r absenoldebau hyn i ddulliau rhagweithiol o reoli staff sy'n tanberfformio, ynghyd ag achosion cysylltiedig yn ymwneud â chwynion a disgyblu.  Er bod trefniadau ar waith i gefnogi'r gweithwyr dan sylw, teimlai rhai na allent ddod i'r gwaith gan briodoli eu habsenoldeb i straen a phryder. Mae'r adran Adnoddau Dynol wedi cymryd camau i weithio gyda'r unigolion hyn.

Mae'r adolygiad hefyd wedi codi'n hymwybyddiaeth o gyfrifoldebau gofalu rhai o'n staff, yn enwedig sefyllfa anodd y rhai sy'n gofalu am berthnasau oedrannus.  Weithiau, bydd staff yn ei chael yn anodd rheoli eu bywyd yn y cartref a'r gwaith, a gall hyn effeithio ar eu hiechyd.  Rydym yn gwybod bod nifer o'n gweithwyr wedi priodoli eu habsenoldeb i straen a phryder oherwydd pwysau gofalu ac mae hyn hefyd wedi cyfrannu at y cynnydd yn y

cyfraddau absenoldeb ers mis Ionawr 2015.  O ganlyniad, rydym yn ailystyried y cymorth sydd ar gael.  Mae hyn yn ategu ymhellach y gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Rhaglen Rheoli Iechyd Meddwl, sydd bellach yn cynnwys cyrsiau cymorth cyntaf iechyd meddwl a digwyddiadau iechyd a llesiant cysylltiedig â straen.

Mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i gael ei fonitro'n ofalus i sicrhau bod y camau a gymerir yn gwella'r sefyllfa ac i nodi lle y mae angen gwneud rhagor.

**Argymhelliad 16**

**Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd Comisiwn y Cynulliad wrth y Pwyllgor nad oedd cynlluniau i redeg cynllun dileu swyddi, er ein bod yn deall nad oedd y posibilrwydd o redeg cynllun yn y dyfodol wedi'i ddiystyru.  Mewn llythyr pellach at y Pwyllgor, cawsom wybod y bydd Comisiwn y Cynulliad yn rhedeg cynllun dileu swyddi yn ystod y flwyddyn ariannol hon.  Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd iddo o ran y gwaith sydd wedi'i wneud i ystyried a oes angen cynllun a beth fydd diben y cynllun.  Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi'r newyddion diweddaraf iddo erbyn haf 2016 am gynnydd y cynllun a rhagor o fanylion am sut mae'r paratoadau at y cynllun wedi cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a ddeilliodd o adolygiad Archwilwyr Mewnol Comisiwn y Cynulliad o'i gynlluniau blaenorol ac o'r astudiaeth Gwerth am Arian a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o gynlluniau dileu swyddi.**

Pan oedd y Comisiwn yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Medi, nid oedd unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynllun ymadael gwirfoddol.  Yna, penderfynodd y Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau gyflwyno cynllun ymadael gwirfoddol ac ysgrifennwyd at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2015, yn nodi ein bwriad i wneud hynny.

Mae'r cynllun ymadael gwirfoddol yn adeiladu ar ein cynlluniau i feithrin gallu er mwyn sicrhau bod Comisiwn y Cynulliad mewn sefyllfa gref i ddiwallu anghenion y Pumed Cynulliad.  Bydd y cynllun yn caniatáu i'r Comisiwn ymateb i newidiadau yn y sgiliau sydd eu hangen, yn hwyluso newidiadau sefydliadol, yn gwella effeithiolrwydd y gweithlu ac yn sicrhau arbedion hirdymor lle y bo'n bosibl.

Byddwn yn sicrhau bod holl argymhellion yr archwiliadau blaenorol yn cael eu hystyried.  Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ei archwiliad o gynlluniau ymadael gwirfoddol 2010 a 2012 a'r

argymhellion yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 'Reoli cynlluniau ymadael yn gynnar cyrff cyhoeddus Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015. Bydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn yn cael adroddiad llawn ar hynt y cynllun.

Daw'r cynllun i ben ym mis Mawrth 2016 ac, wrth gwrs, bydd y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w Pwyllgor. Bydd hefyd yn datgelu gwybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i fodloni safonau cyfrifyddu ac i sicrhau tryloywder yn y modd rydym yn defnyddio arian cyhoeddus.

**Argymhelliad 17**

**Ystyriodd y Pwyllgor y digwyddiad twyll a ddigwyddodd yn 2013-14 a'r effaith ddilynol a gafodd ar gyfrifon 2014-15 ac yn benodol colled o £29,000 yn 2013-14 a £71,000 yn 2013-14. Mae'r Pwyllgor yn siomedig mai swm bach yn unig o'r colledion hyn a all gael ei adennill ac mae'n dal yn bryderus nad oedd y prosesau a oedd ar waith ar y pryd yn ddigon cadarn i atal y twyll rhag digwydd. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus ei bod wedi cymryd cyfnod o dri mis cyn i'r twyll gael ei ganfod. Er hynny, rydym yn nodi'r camau a gymerwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i gryfhau ei reolaethau o ran cofnodi a dilysu data ei gyflenwyr. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad fynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu ei reolaethau yn y maes hwn i sicrhau bod mesurau rheoli o'r fath yn dal yn gadarn. Rydym yn argymell parhau i gyfathrebu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da yn cael eu rheoli i helpu i atal digwyddiadau twyll rhag digwydd yn y dyfodol.**

**Sicrwydd**

Cyn gynted ag y daeth yr achos o dwyll i'r amlwg ym mis Mai 2014, aethom ati i gryfhau ein prosesau a'r amgylchedd rheoli. Mae'r gwiriadau ychwanegol hyn wedi'u hadolygu gan y timau archwilio allanol a mewnol a chadarnhawyd eu bod yn gadarn ac yn addas i'r diben.

Bydd y Comisiwn hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro ei systemau rheoli cyllid allweddol, ac yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd o wella prosesau rheoli cyllid a datblygu arfer gorau drwy'r sefydliad, gan gynnwys brwydro yn erbyn twyll. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi sicrwydd bod ein prosesau yn parhau i fod yn addas i'r diben. Roedd y sicrwydd diweddaraf a gawsom (Ionawr 2016) yn cynnwys systemau rheoli cyllid allweddol. TIAA gynhaliodd yr archwiliad a rhoddodd y sgôr archwilio uchaf inni. Mae archwiliad blynyddol arferol o ddata ym mynd rhagddo

hefyd. Fel y nodir isod, caiff pob rhan o’r sefydliad wybod am unrhyw welliannau sy'n deillio o'r gwaith monitro hwn i sicrhau eu bod yn effeithiol.

**Cyfathrebu**

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn perthyn i Fforwm Archwilio Mewnol PwC (PricewaterhouseCoopers) Cymru a Gorllewin Lloegr. Ers mis Medi 2015, mae hyn yn caniatáu iddo fanteisio ar wasanaethau Academi Twyll PwC gan gynnwys arbenigwyr sydd â gwybodaeth am risgiau a thwyll, llygredigaeth a gonestrwydd. Yna, caiff gwybodaeth ei rhannu’n ehangach â chydweithwyr y Comisiwn. Bydd hefyd yn cyfarfod â’r swyddogion cyfatebol yn neddfwrfeydd eraill y DU a fforymau seneddol ac yn trafod twyll yn rheolaidd yn eu cyfarfodydd bob chwe mis.

Yn ystod 2014-15, roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn bresennol mewn cyfres o gyfarfodydd tîm drwy Gomisiwn y Cynulliad i godi ymwybyddiaeth o’u dyletswyddau mewn perthynas â llywodraethu da, gan gynnwys y cyfrifoldeb i fod yn effro i achosion posibl o dwyll. Bydd aelod o'r tîm Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn rhoi cyflwyniadau fel rhan o raglen gynefino newydd-ddyfodiad, sy'n cynnwys adran ar bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o dwyll. Caiff bwletinau’n ymdrin â thwyll eu postio ar y fewnrwyd yn rheolaidd i atgoffa pawb o’r bygythiadau ac i danlinellu bod angen i staff barhau i fod yn effro i dwyll.

Ym mis Tachwedd 2014, cynhaliodd ACARAC adolygiad o'r gwaith a wnaeth y Pennaeth Archwilio Mewnol i ddiweddaru’r Cynllun Ymateb i Dwyll. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y dylai staff ymateb yn gyflym i unrhyw ymgais i dwyllo neu o unrhyw fygythiad canfyddedig o dwyll.

Ym mis Ionawr 2016, cyflwynwyd cwrs gan TIAA, ein partneriaid Archwilio Mewnol, i godi ymwybyddiaeth aelodau o'r tîm Gwasanaethau Ariannol o dwyll. Mae’r hyfforddiant ar gael i aelodau eraill y Comisiwn ar fewnrwyd y staff. Ategir hyn ymhellach gan fwletinau a chanllawiau perthnasol i helpu staff ym mhob rhan o’r Comisiwn i drin ymholiadau mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o dwyll.

Mae gan y Comisiwn berthynas waith adeiladol â Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) , sy’n goruchwylio holl sector cyhoeddus Cymru. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn anfon gwybodaeth a sylwadau’n achlysurol at y Comisiwn. Mae gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol ac Allanol brotocol gweithio ar y cyd ar waith hefyd a gymeradwywyd gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Mae’r Pwyllgor hwn yn annog Swyddfa Archwilio Cymru a’r gwasanaeth archwilio mewnol i barhau i gydweithio’n agos i godi ymwybyddiaeth o dwyll.